sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Gweithdrefn adnewyddu trwyddedau amlblecs radio lleol: diweddariad

Mae Ofcom bob amser yn gwneud ymdrech i sicrhau y ceir cyn lleied o rwystrau rheoleiddio â phosib o ran darparu gwasanaethau darlledu amrywiol ar draws y DU.

I'r perwyl hwnnw, rydym heddiw yn adolygu ein safbwynt ar y weithdrefn adnewyddu trwyddedau amlblecs lleol, y credwn y bydd yn helpu i ddiogelu argaeledd amrywiaeth eang o wasanaethau radio ar draws y DU.

## Y gofynion a nodwyd ym mis Medi 2020

Ym mis Medi 2020, cyhoeddwyd y 'Weithdrefn adnewyddu trwyddedau amlblecs radio lleol', a fu'n nodi'r gofynion y mae'n rhaid i bob trwyddedai amlblecs eu bodloni er mwyn sicrhau yr adnewyddir eu trwydded amlblecs hyd at fis Rhagfyr 2030. Yn y ddogfen honno, bu i ni ddweud:

“At ddibenion penderfynu a yw deiliad trwydded amlblecs radio leol wedi "cwblhau'r gwaith sy'n angenrheidiol i sicrhau, fel isafswm, bod y ddarpariaeth o'r gwasanaeth amlblecs yn yr ardal lle rhoddwyd y drwydded yn cydymffurfio â'r cynllun darpariaeth ar gyfer yr ardal honno", mae'n rhaid i'r trwyddedai gadarnhau i Ofcom ei fod yn darparu'r lefel angenrheidiol o ddarpariaeth, fel y dangosir yn y cynllun darpariaeth perthnasol.”

Datblygwyd a chyhoeddwyd y cynlluniau darpariaeth gan Ofcom yng nghyswllt y Cytundeb Fframwaith ar Ehangu DAB Lleol. Mae'r Cytundeb Fframwaith yn nodi dwy restr o safleoedd trawsyryddion a fyddai'n helpu darpariaeth DAB lleol i gyfateb i'r ddarpariaeth FM bresennol. Gwnaeth y rhestr gyntaf, y 'Cynllun Ehangu', nodi'r 'safleoedd Cam 1', sy'n cynnwys 182 o drawsyryddion newydd ac addasiadau i 49 o drawsyryddion presennol. Rhoddodd yr ail restr fanylion nifer o 'safleoedd Cam 2', a oedd i'w hadeiladu gan y gweithredwyr amlblecs perthnasol heb fod yn hwyrach na blwyddyn cyn dyddiad diffodd analog sydd i'w fandadu gan lywodraeth y DU.

## Ein safbwynt ar adnewyddu amlblecsau lleol

Effaith ein dogfen ym mis Medi 2020 a'r cynlluniau darpariaeth oedd y byddai'n ofynnol i drwyddedeion amlblecsau lleol adeiladu'r safleoedd 'Cam 1' a 'Cam 2' a ddisgrifir yn y Cytundeb Fframwaith.

Fodd bynnag, am wahanol resymau sydd wedi'u hamlinellu isod, rydym wedi ystyried ein safbwynt ar adnewyddu amlblecsau lleol. Byddwn yn ailgyhoeddi mapiau darpariaeth sy'n dileu'r safleoedd 'Cam 2'. Mae hyn yn golygu na fydd adeiladu'r safleoedd 'Cam 2' hynny bellach yn ofyniad er mwyn gofyn am adnewyddu'r trwyddedau amlblecs hyd at 31 Rhagfyr 2030 o dan Reoliadau Deddf Darlledu 1996 (Adnewyddu Trwyddedau Amlblecs Radio Lleol) 2015.

Yma, byddwn yn esbonio'r rhesymeg y tu ôl i hyn, gan i ni eisiau bod yn gwbl glir ynghylch beth mae hyn yn ei olygu ac nad yw'n ei olygu ar gyfer gwasanaethau radio amlblecs. Yn gyntaf, bu i ni archwilio pa ddarpariaeth DAB ychwanegol y byddai pob safle 'Cam 2' yn ei chyfrannu at wneud i'r ddarpariaeth gyfateb i'r gwasanaeth analog (FM) presennol mwyaf perthnasol. Yn y rhan fwyaf o achosion, gwelsom y byddai'r safleoedd 'Cam 2' ond yn ychwanegu nifer fach iawn o aelwydydd at y ddarpariaeth, gyda rhai'n ychwanegu llond llaw yn unig o aelwydydd newydd.

Fe wnaethom hefyd ystyried y safleoedd hynny yn ofalus a fyddai'n ychwanegu nifer ehangach o aelwydydd ychwanegol, ac yn gyffredinol nodwyd na fyddent hwythau ychwaith yn ymestyn darpariaeth DAB yn sylweddol i gyfateb i'r ddarpariaeth FM gywerth. Lle'r oedd eithriadau i hyn, megis gyda safle Rumster Forest ger Inverness, daethom i benderfyniad trwy bwyso a mesur i ba raddau y byddai'r ddarpariaeth DAB ychwanegol yn cynyddu maint y gyfatebiaeth â FM yn erbyn yr ystyriaethau a nodir isod.

Yna bu i ni ystyried ein dyletswydd i sicrhau argaeledd amrywiaeth eang o wasanaethau radio ar draws y DU, gan gadw cyd-destun y diwydiant a'r argymhellion y a nodir yn Adolygiad Radio a Sain Digidol Llywodraeth y DU mewn cof.

Un o'r amodau ar gyfer adnewyddu trwydded amlblecs radio lleol yw bod yn rhaid i'r trwyddedai gynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth ar y pwynt adnewyddu. Felly, mae cynnal y ddarpariaeth honno'n mynd yn un o amodau'r drwydded am y cyfnod newydd, sydd wedyn yn sicrhau argaeledd y gwasanaethau hynny ar yr amlblecs hwnnw yn yr ardaloedd lle maent ar gael ar hyn o bryd.

Craidd y mater i ni yw hyn: os na fydd gwasanaeth amlblecs radio lleol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adnewyddu, yr unig ffordd i'r ddarpariaeth barhau yw i Ofcom ail-hysbysebu'r drwydded. Byddai angen i'r trwyddedai presennol ailymgeisio am y drwydded pe bai'n dymuno parhau i ddarparu ei wasanaeth amlblecs radio lleol. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr am drwydded amlblecs radio leol nodi'r ardal y maent am roi darpariaeth iddi, gan mai un o'r materion y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried wrth benderfynu ar ddyfarnu trwydded yw maint y ddarpariaeth a gynigir gan ymgeisydd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw sicrwydd y byddai unrhyw ymgeisydd am drwydded amlblecs radio lleol a ail-hysbysebir yn cynnig rhoi'r un lefel o ddarpariaeth ag a gynigir gan y trwyddedai presennol. Yn erbyn cyd-destun prisiau ynni cynyddol a thrwyddedeion sy'n ceisio lleihau costau, mae risg wirioneddol y byddai'r ddarpariaeth yn llai o dan ddyfarniad trwydded newydd. Mae risg hefyd na fyddai'r deiliad presennol na darpar weithredwr newydd yn gwneud cais am y drwydded newydd, gan adael yr ardal heb wasanaeth amlblecs radio lleol o gwbl.

Un ffactor pwysig arall yw, yn absenoldeb dyddiad diffodd a fandadir gan lywodraeth y DU, nad yw telerau'r Cytundeb Fframwaith yn mynnu eto bod partïon i'r Cytundeb yn adeiladu'r safleoedd 'Cam 2' perthnasol. Gellir ystyried bod hyn yn dystiolaeth bellach sy'n awgrymu nad yw trwyddedeion amlblecs radio lleol sydd heb adeiladu eu safleoedd 'Cam 2' eto'n annhebygol o wneud hynny er mwyn sicrhau adnewyddu trwyddedau, ac yn hytrach y byddent yn ceisio ailymgeisio am eu trwyddedau mewn cystadleuaeth agored.

## Casgliad

Gan gymryd hyn oll i ystyriaeth, rydym o'r farn mai'r camau priodol i sicrhau'r lefel bresennol o ddarpariaeth DAB leol fyddai dileu'r safleoedd 'Cam 2' o'r cynlluniau darpariaeth y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn sicrhau'r adnewyddu.

Rydym yn ailgyhoeddi'r mapiau darpariaeth ar gyfer yr amlblecsau a ganlyn gyda'r datganiad hwn:

- Aberdeen
- Inverness
- Swydd Lincoln
- Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Gwlad yr Haf
- Suffolk
- Tayside